

lesu'n clirio'r deml

Mathew 21: 12-17; Marc 11: 15-19; Luc 19: 45-48; Ioan 2: 13-24



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
Mathew 21: 12-17; Marc 11: 15-19; Luc 19: 45-48; Ioan 2: 13-24	An illustration showing Jesus, with a beard and wearing a white robe, overturning tables in a temple. Text overlay: 'Matthew 21 v 12-17', 'Mark 11 v 15-19', 'Luke 19 v 45-48', 'John 2 v 13-24'. At the bottom: 'THE EASTER STORY', 'CLEANSING THE TEMPLE', 'Free Bible Images', and 'www.freebibleimages.org'.	

- 1 Ar ôl marchogaeth yn fuddugoliaethus i mewn i Jerwsalem, aeth Iesu i mewn i gwrth y deml.



- 2 Gwelodd fyrrdau'r rhai oedd yn cyfnewid arian.



- 3 Roedd rhai yno'n gwerthu colomennod.



-
- 4 Doedd Iesu ddim yn fodlon.



-
- 5 Yna dwedodd, "Mae'r ysgrifau sanctaidd yn dweud: 'Bydd fy nhŷ i yn cael ei alw yn dŷ gweddi.'



-
- 6 Ond dych chi'n ei droi yn 'guddfan i ladron'!"



-
- 7 Gafaelodd ym myrddau'r rhai oedd yn cyfnewid arian a'u troi drosodd.



-
- 8 Gwnaeth yr un peth hefyd i feinciau y rhai oedd yn gwerthu colomennod.



-
- 9 Dwedodd wrth y rhai oedd yn gwerthu colomennod "Ewch â'r rhain allan oddi yma! Stopiwch droi tŷ fy Nhad i yn farchnad!"



-
- 10 Gwnaeth chwip o reffynnau, a'u gyrru nhw i gyd allan o'r deml gyda'r defaid a'r ychen. Gwrthododd adael i unrhyw un gario pethau i'w gwerthu i mewn i'r deml.



-
- 11 Roedd pobl ddall a rhai cloff yn dod ato i'r deml, ac roedd yn eu hiacháu nhw.



-
- 12 Ond roedd y prif offeiriaid a'r arbenigwyr yn y Gyfraith wedi gwylltio'n lân wrth weld y gwyrthiau rhyfeddol roedd yn eu gwneud, a'r plant yn gweiddi yn y deml, "Clod i Fab Dafydd!" "Wyt ti ddim yn clywed beth mae'r plant yma'n ei ddweud?" medden nhw wrtho.



-
- 13 "Ydw." atebodd Iesu, "Ydych chi erioed wedi darllen yn yr ysgrifau sanctaidd, 'Rwyf wedi dysgu plant a babanod i dy foli di?'" (Salm 8:2)



-
- 14 Clywodd y prif offeiriaid a'r arbenigwyr yn y Gyfraith beth ddwedodd e, a mynd ati i geisio dod o hyd i ffordd i'w ladd.



-
- 15 Roedden nhw'n ei weld yn fygythiad i'w hawdurdod, am fod y bobl wedi eu syfrdanu gan ei eiriau. Ond doedden nhw ddim yn gallu ei arestio am fod ganddyn nhw ofn ymateb y bobl.



-
- 16 Pan ddechreuodd hi nosi, dyma lesu a'i ddisgyblion yn gadael y ddinas a mynd i Bethania.



-
- 17 Cyfieithwyd gan www.beibl.net



www.freebibleimages.org

-
- 18

